



Rhys ab Owen
Rhys.abOwen@senedd.wales

5 Gorffennaf 2021

Annwyl Rhys ab Owen,

Yn fy ateb i'ch cwestiynau ysgrifenedig diweddar (WQ82545, WQ82546, a WQ82547), addewais ysgrifennu atoch cyn gynted â phosibl yn rhoi ymateb cynhwysfawr ichi. Mae'r tri chwestiwn yn ymwneud â'r rhaglen diwtora genedlaethol sydd ar waith yn Lloegr, y trafodaethau rwyf wedi'u cael ynghylch sicrhau tiwtora i ysgolion yng Nghymru, a'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod plant sydd o dan anfantais economaidd yng Nghymru yn gallu dal i fyny â'u dysgu yn dilyn pandemig y coronafeirws.

Yn ystod yr argyfwng, mae wedi dod yn amlwg nad yw llawer o ddysgwyr wedi datblygu cymaint ag y gallent fod wedi gwneud o ran eu cynnydd dysgu, a bod yr effaith wedi bod yn fwy difrifol ar rai nag ar eraill. Mae tystiolaeth o amryw o ffynonellau dibynadwy (OECD, ARC, Estyn, y rhanbarthau, Ymddiriedolaeth Sutton, y Comisiynydd Plant, Barnardo's, diweddariadau gwybodaeth rhyngwladol), gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar Gymru, yn awgrymu bod y sefyllfa wedi effeithio ar y rhan fwyaf o ddysgwyr, os nad pob un ohonynt, ac mai'r rhai mwyaf agored i niwed sydd wedi gweld yr effaith fwyaf.

Mewn ymateb i'r dystiolaeth hon, drwy ein Rhaglen Dysgu Carlam "Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau", rydym yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion er mwyn rhoi hwb i'r gefnogaeth i ddysgwyr ar adegau hanfodol yn eu haddysg. Nid ydym wedi dilyn llwybr Lloegr o ran gwasanaeth tiwtora cenedlaethol. Yn hytrach rydym yn datblygu ymateb sy'n unigryw i Gymru i helpu dysgwyr i ddod dros y cyfnod diweddaraf.

Mae rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi bod ar waith drwy gydol blwyddyn academiaidd 2020/21, gan ddarparu £29miliwn o gyllid ychwanegol i gynyddu capasiti

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ysgolion a'u galluogi i fynd i'r afael ag effaith y pandemig. Ar ben hyn, buddsoddodd y llywodraeth flaenorol £72m arall mewn ysgolion ym mis Mawrth, a bydd rhan o hwn yn cyllido rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn y flwyddyn academaidd newydd o fis Medi 2021.

Ein hymateb ni i'r sefyllfa oedd neilltuo adnoddau ariannol i greu capasiti newydd o fewn y system yn hytrach na chreu gwasanaeth tiwtora. Nid oeddem am osod cyfyngiadau ar benaethiaid o ran sut i benodi a defnyddio'r capasiti newydd hwn, ac felly caniatawyd iddynt benodi athrawon, cynorthwyrwyr addysgu ac i rolau eraill o fewn eu hysgol, yn unol â dealltwriaeth yr ysgol o'i dysgwyr.

Mae natur ein buddsoddiad ym mhob dysgwr drwy raglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, a'r ffocws ar ddysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig, yn creu pecyn cynhwysfawr i gefnogi addysgu a dysgu: mae'n golygu ein bod wedi buddsoddi mwy na £150m mewn addysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Caiff yr ymyriadau hyn eu teilwra yn ôl gwahanol anghenion ac yn ôl y dysgwyr – rydym yn ceisio sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, a chydabod ac ymateb i'r amrywiaeth eang o brofiadau y mae dysgwyr wedi'u cael dros gyfnod y pandemig. Yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo hefyd i gefnogi lles a hyder dysgwyr fel sail ar gyfer datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau.

Efallai bod dull tiwtora Lloegr yn helpu dysgwyr sydd â lefelau cymhelliant uchel i ddal i fyny, ond mae'n llai tebygol o allu cefnogi'r rheini sydd wedi ymddieithrio o'r broses ddysgu ac sydd â lefelau cymhelliant is. Yng Nghymru, nid ydym o'r farn mai ystyried y mater fel un o 'ddal i fyny' sydd orau o reidrwydd. Yn hytrach, credwn fod angen inni fynd i'r afael â hanfodion dysgu yn ogystal â chynnydd dysgwyr – gan ganolbwyntio ar eu lles, eu cymhelliant a'u hyder. Mae'r egwyddorion sydd wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, felly, yn rhoi'r penderfyniadau yn nwylo arweinwyr ysgolion, gan eu grymuso nhw i wneud y penderfyniadau iawn ar sail eu cymunedau a'u carfanau dysgwyr nhw, yn hytrach na buddsoddi mewn gwasanaethau tiwtora cenedlaethol.

Mae fformwla cyllido rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau wedi'i lywio gan y dysgwyr hynny sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys elfennau pwysoli mewn meysydd fel amddifadedd (a ddiffinnir ar sail cymhwysedd am brydau ysgol am ddim), cymunedau du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac addysg cyfrwng Cymraeg.


Drwy gydol y rhaglen, rydym wedi adolygu'r elfennau pwysoli hyn ac wedi rhoi sylw i adborth gan y system addysg. Rydym wedi mireinio ymhellach y fformwla ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod, gan gynnwys elfennau pwysoli ar gyfer plant â datganiadau ADY. Rydym wedi mireinio ein dull o bwysoli o ran addysg cyfrwng Cymraeg, a chynnwys elfennau pwysoli ar gyfer grwpiau blwyddyn penodol, gan gynnwys ein dysgwyr ieuengaf.

Fel y tynnir sylw ato yn adroddiad y Sefydliad Polisi Addysg ar ddulliau 'dal i fyny' ar draws y pedair gwlad, mae rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau Cymru yn targedu'r disgyblion

mwyaf difreintiedig lawer yn well, sef, yn ôl y gwaith ymchwil, y rhai sydd wedi dioddef fwyaf o ran eu haddysg yn ystod y pandemig.

Mae dull gweithredu Lloegr yn helpu dysgwyr i ddal i fyny drwy diwtora, ond rydym ni o'r farn mai caniatáu i arweinwyr ysgolion benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi anghenion eu dysgwyr yw'r ffordd fwyaf tebygol o fynd i'r afael ag anghenion y mwyaf difreintiedig a'r rhai y mae'r pandemig wedi effeithio fwyaf arnynt, yn ogystal â'r dysgwyr hynny a allai fod wedi ymddieithrio.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of loops and a horizontal line.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language